# PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR GWYNEDD
# ADRODDIAD BLYNYDDOL 2014 - 2015

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk

# RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r Adroddiad Blynyddol yma fel Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd. Daeth fy nghyfnod fel Cadeirydd ac fel aelod o'r Pwyllgor i ben eleni, a thros y deg mlynedd diwethaf mae wedi bod yn fraint cael gwasanaethu ar y pwyllgor.

Prif bwrpas y Pwyllgor yw hybu a chynnal safonau ymddygiad, ac rwyf o'r farn bod y Pwyllgor wedi llwyddo i wneud hynny ac y bydd hyn yn parhau i'r dyfodol. Fe welwch o'r adroddiad i'r pwyllgor gynnal gwrandawiadau i ystyried cwynion yn erbyn aelodau unigol yn ystod y flwyddyn. Rhaid pwysleisio serch hynny mai nifer fechan iawn o gwynion sydd yn cyrraedd y pwyllgor ar y cyfan, a hoffwn ddiolch felly i'r aelodau hynny ar draws y sir sy'n gweithio'n gydwybodol er budd pobl Gwynedd.

Mae llywodraeth leol ar bob lefel yn wynebu sawl her dros y blynyddoedd nesaf a bydd arweiniad cadarn y pwyllgor yn hanfodol wrth sicrhau y cynhelir y safonau uchel o ymddygiad yn ystod y cyfnod anodd yma.

Hoffwn ddiolch i fy nghyd-aelodau ar y pwyllgor am eu hymroddiad, eu proffesiynoldeb a'u cyfeillgarwch dros y blynyddoedd. Dymunaf yn dda iddynt hwy ac i'r aelodau newydd. Yn olaf hoffwn hefyd ddiolch yn fawr i'r swyddogion am eu cefnogaeth a'u cyngor parod drwy gydol fy nghyfnod ar y Pwyllgor.

Gwilym Ellis Evans
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau

# RHAGAIR GAN Y SWYDDOG MONITRO

Hanfod ennill a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yng ngweithgaredd bywyd cyhoeddus ydi sicrhau safonau uchel o ymddygiad ymysg y rhai sy'n dal swyddi cyhoeddus. Yn hyn, mae Pwyllgor Safonau cadarn a gweithgar yn chwarae rhan allweddol ac a chyfraniad creiddiol i lywodraethu da.

Mae'r adroddiad blynyddol yma yn cyflwyno'r gwaith gwerthfawr mae Pwyllgor Safonau Gwynedd yn ei gyflawni er mwyn cefnogi'r fframwaith moesegol a hybu safonau ymddygiad uchel gan gynghorwyr sir ac aelodau cynghorau tref a chymuned y sir. Eto eleni sefydlwyd rhaglen waith sydd yn cwmpasu ystod o weithgareddau. Hefyd ymdriniwyd â gwrandawiadau ynglŷn â honiadau tor Cod Ymddygiad gan aelodau'r cyngor a chynghorau cymuned ynghyd a dyfarnu ceisiadau am oddefebau gan aelodau.

Bu newid yn yr aelodaeth eleni wrth i dymor gwasanaeth ddirwyn i ben. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i gydnabod cyfraniad clodwiw Mr Gwilym Evans a Mr Sam Soysa, ac i ddiolch iddynt am eu gwasanaeth hir ar y Pwyllgor. Mae'r flwyddyn yma hefyd wedi pontio newid mewn Swyddogion Monitro yn y Cyngor. Ac rwy'n ffodus i fedru adeiladu ar sylfaen gref a greuwyd gan fy rhagflaenydd Mrs Dilys Phillips.

Swyddogaeth greiddiol y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo safon uchel o ymddygiad ymhlith aelodau'r cyngor yma a chynghorau tref a chymuned a'r her i'r dyfodol fydd parhau i gyflawni a chyfathrebu hyn mewn modd cadarnhaol ac effeithiol.

Iwan Evans
Swyddog Monitro
Cyngor Gwynedd

# CYFLWYNIAD


Sefydlwyd y Pwyllgor yn 2001 o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan gynghorwyr ac aelodau cyfetholedig Cyngor Gwynedd, a chynghorau cymuned a thref Gwynedd. Gwna hyn mewn sawl ffordd:

- Cynorthwyo'r cynghorwyr a'r aelodau cyfetholedig i ddilyn y Cod Ymddygiad Aelodau.
- Cynghori'r awdurdod ar fabwysiadau neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad Aelodau
- Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad Aelodau
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi cynghorwyr ac aelodau cyfetholedig ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad.
- Penderfynu ar gwynion a gyfeirir ato gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fod aelodau wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- Ystyried ceisiadau a wneir gan aelodau am oddefebau i'w galluogi i gymryd rhan mewn trafodaethau, er bod ganddynt fuddiant sy'n rhagfarnu o dan y Cod.
- Ystyried materion a gyfeirir ato dan drefn ddatrys cwynion lleol Cyngor Gwynedd
- Goruchwylio Polisi Rhoddion a Lletygarwch Aelodau Cyngor Gwynedd .

# AELODAU'R PWYLLGOR

Er bod y Pwyllgor Safonau yn un o bwyllgorau Cyngor Gwynedd, mae'n cynnwys mwyafrif o aelodau sydd heb unrhyw gysylltiad â'r Cyngor neu lywodraeth leol ('Aelodau Annibynnol'). Mae hefyd yn cynnwys aelod sy'n cynrychioli buddiannau'r cynghorau cymuned ('Aelod Pwyllgor Cymunedol'), yn ogystal â thri aelod etholedig o Gyngor Gwynedd. Rhaid i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor ddod o blith yr Aelodau Annibynnol.

**Gwilym Ellis Evans (aelod 2005 – 2015)**



Mae Gwilym yn byw yn Nolgellau lle y bu'n rhedeg busnes modurdy a gwerthu ceir am bron i 40 mlynedd. Mae wedi gwasanaethu ar sawl tribiwnlys, gan gynnwys Tribiwnlysoedd Diwydiannol ac Apeliadau Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'n gwasanaethu ar Dribiwnlys Apêl Prisio Cymru, yn gyn-Gadeirydd CAB Gwynedd a De Môn ac yn Is-gadeirydd Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru. Mae hefyd yn aelod o Gwrp Lliwio Partneriaeth Economeg Gwynedd ac yn Gadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Age Cymru, Gwynedd a Môn.

**Samindre (Sam) W. Soysa (aelod 2005 – 2015)**




Mae Sam yn byw yn Harlech ac yn gweithio fel Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch yng Ngogledd Cymru am bron i 10 mlynedd. Dros y 40 mlynedd diwethaf mae wedi gweithio mewn nifer o uwch swyddi rheolaethol a busnes, gan gynnwys gyda Gweinyddiaeth Ynni Seland Newydd. Mae hefyd yn gwasanaethu fel aelod annibynnol ar Bwyllgorau Safonau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn y gorffennol bu'n ymddiriedolwr/gyfarwyddwr ar C.A.B. Gwynedd a De Ynys Môn, yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol C.A.B. Meirionnydd, yn ogystal â bod yn aelod annibynnol ac Is-gadeirydd Pwyllgor Safonau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**Linda Byrne (aelod ers 2012)**




Mae Linda wedi byw yng ngogledd Cymru ers 10 mlynedd, ac erbyn hyn yn gweithio i Gyngor ar Bopeth yng Nghaernarfon fel gwirfoddolwr. Mae ei gŵr yn Gymro a thri o'i wyrion ac wyresau yn siaradwyr Cymraeg. Bu'n darlithio mewn colegau addysg bellach yng ngogledd ddwyrain Lloegr a Chymru cyn gweithio fel Cynghorydd Anabledd i Fyfyrwyr ym mhrifysgolion Durham a Bangor. Gwasanaethodd fel cynghorydd tre am chwe blynedd a chynghorydd bwrdeistrefol am wyth mlynedd yn Sedgefield, Swydd Durham.

**Margaret E Jones (aelod ers 2012)**



Er yn enedigol o Landrillo yn Rhos mae Margaret wedi treulio'r rhan fwyaf o'i hoes yn Chwilog. Bu'n dysgu yn Ysgol Abersoch am 32 o flynyddoedd, yn cynnwys 14 fel prifathrawes. Mae'n ddiacon yn Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, a bu'n Gadeirydd Cyngor Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am 3 blynedd ac mae hi hefyd yn gyn Lywydd yr Undeb. Bu'n aelod o Gyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd ac yn Is-gadeirydd hyd at yr ad-drefnu yn 2010. Mae hi hefyd yn Gadeirydd Pwyllgor Eisteddfod Gadeiriol Chwilog.



**Dr Einir Young (aelod ers 2012)**

Einir yw Cyfarwyddwr Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor ac mae ei hadran yn y broses o gael ei hailstrwythuro i fod yn ganolbwynt corfforaethol amlwg i arwain ar ddatblygu cynaliadwy yn y Brifysgol. Un o brif ddiddordebau Einir yw hwyluso trafodaeth ynglŷn â'r gwrthdaro sy'n deillio o geisio taro'r cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ym mhob penderfyniad a wnawn fel busnesau, sefydliadau ac unigolion. Ystyriaeth sy'n dod yn fwy pwysig ar draws Cymru yn sgîl y ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan fod dyletswydd stadudol ar nifer o gyrff i fabwysiadu yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu holl benderfyniadau. Mae cynnal safonau yn elfen mor bwysig i gynaliadwyedd ag yw ail gylchu ac arbed ynni, ac mae hi'n falch o'r cyfle o gael bod yn rhan o Bwyllgor Safonau Gwynedd ac i'w gadeiro.

**Jacqueline Hughes (aelod ers 2015)**



Mae Jackie yn byw yn Nantlle gyda'i gwr Ian, ei thair merch, ei hwyres a chi bywiog iawn. Yn wreiddiol o Gilgwri, cymhwysodd fel radiograffydd diagnostig yn 1987 ar ôl astudio yn Ysgol Radiograffeg Ysbyty Guys. Ar ôl ymgartrefu yng Ngogledd Cymru gyda'i theulu ifanc, ymunodd â staff yn Ysbyty Gwynedd. Mae gyrfa Jackie ym Mangor wedi datblygu fel radiograffydd ac fel cynrychiolydd cysylltiadau diwydiannol. Ar hyn o bryd hi yw Cadeirydd Ochr y Staff ar gyfer y Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr yn ogystal â bod yn gynrychiolydd lleol dros y rhan fwyaf o'r radiograffwyr yng Ngogledd Cymru. Bu'n Llywydd Cymdeithas a Choleg y Radiograffyddion ac roedd yn allweddol wrth ddatblygu'r ymateb i Adroddiad Francis, ac yn dilyn hynny côd ymddygiad newydd ar gyfer radiograffyddion. Mae hi'n credu bod yn rhaid i unrhyw un sy'n gweithio mewn bywyd cyhoeddus gynnal lefel uchel o safonau personol er mwyn bod yn gredadwy i'r cyhoedd.

**David Wareing (aelod ers 2015)**



Symudodd David o Swydd Gaerhirfryn i'r Groeslon yn 2014 yn dilyn ei ymddeoliad o Heddlu Glannau Mersi. Gwasanaethodd am 26 mlynedd mewn amrywiaeth o rolau, yn fwyaf diweddar yn Adran Weithredol yr Heddlu yn y Pencadlys. Yn y swydd hon roedd yn cynllunio digwyddiadau cyhoeddus mawr, diogelwch y cyhoedd yn ystod gweithrediadau gan yr Heddlu a lleihau cymorth yr heddlu i asiantaethau allanol drwy fwy o weithio mewn partneriaeth. Roedd yn arbenigo mewn asesu risg a sicrhau cydymffurfiaeth gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch. Cynrychiolodd David Heddlu Glannau Mersi ar bob un o'r pum Grŵp Ymgynghorol Diogelwch o fewn yr ardal honno. Mae'n credu'n gryf bod yn rhaid i weithredoedd y rhai sydd mewn swyddi cyhoeddus fod yn dryloyw ac yn atebol.

# Aelod Pwyllgor Cymunedol

**Cynghorydd David Clay (aelod ers 2008)**



Mae David wedi bod yn aelod etholedig o Gyngor Tref Abermaw ers 29 mlynedd ac wedi bod yn gadeirydd ar bedwar achlysur gwahanol. Mae hefyd yn gyn gadeirydd Pwyllgor Ardal Meirionnydd Un Llais Cymru. Cyn ymddeol bu'n cadw gwesty yn Abermaw am 30 mlynedd ac 'roedd yn aelod gweithgar o Gyngor Twristiaeth Canolbarth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Partneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru.

# Aelodau Cyngor Gwynedd

**Cynghorydd Eryl Jones-Williams (aelod ers 2011)**



Mae Eryl yn newyddiadurwr llawrydd wedi lled-ymddeol ac wedi cynrychioli Dyffryn Ardudwy a Thalybont ar Gyngor Gwynedd ers 2008. Mae'n gynghorydd tref a chymuned ers blynyddoedd ac wedi gwasanaethu fel Maer a Chadeirydd. Mae'n cymryd rhan weithgar yn y maes hawliau anabledd ac yn is-gadeirydd Grŵp Mynediad Meirionnydd yn ogystal ag aelod o Fforwm Mynediad De Eryri a Chyngor Cymuned GIG Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'n Gadeirydd Pwyllgor Trwyddedu Gwynedd, lle gall dynnu ar ei brofiad fel cyn drwyddedai. Mae hefyd yn Bencampwr Gofalwyr y Sir. Mae'n gyn-ddyfarnwr pêl-droed Cymru ac mae ei ddiddordebau yn cynnwys chwarae golff yng Nghlwb Brenhinol Dewi Sant, Harlech ac yn Nolgellau.

**Cynghorydd Michael Sol Owen (aelod ers 2012)**



Mae Michael yn byw ym Mhwllheli ac yn cynrychioli rhanbarth etholiadol Gogledd Pwllheli ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012. Enillodd radd mewn Ffiseg a Gwyddoniaeth Deunyddiau, bu'n rheolwr gyfarwyddwr cwmni ym Mhwllheli a hefyd yn gweithio i'r Cynulliad fel ymgynghorydd busnes. Mae wedi bod yn aelod o Gyngor Tref Pwllheli ers dros 30 mlynedd ac mae'n gadeirydd elusen Cynllun Ieuenctid Pwllheli. Ar hyn o bryd mae'n Gadeirydd Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd a hefyd yn gwasanaethu fel aelod o Fwrdd Rheoli Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

**Cynghorydd Lesley Day (aelod ers 2014)**



Bu Les yn Gynghorydd ar Gyngor Gwynedd ers mis Mai 2012 ac ar hyn o bryd mae hi'n Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd. Mae hi wedi bod yn Gynghorydd Dinas Bangor ers 1991 ac mae hi'n gyn-faer, yn cynrychioli Ward Garth ym Mangor. Mae hi'n gyn-aelod a Gyngor Bwrdeistrefol Arfon.

Mae cymwysterau, gyrfa a diddordebau Les yn gyfan gwbl mewn Llywodraeth Leol. Cafodd ei chymhwyster cyntaf mewn Gweinyddiaeth Gyhoeddus Llywodraeth Leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Surrey. Ar ôl dychwelyd i Fangor, ei thref enedigol, cafodd gymwysterau ariannol llywodraeth leol pan oedd yn gweithio i Gyngor Sir Gwynedd. Ar ôl yr aildrefnu yn 1996, trosglwyddodd Les i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae Les yn Gadeirydd Canolfan Gymdeithasol Garth ac yn lywodraethwr yn Ysgol Hirael.

**Cynghorydd Charles Wyn Jones (aelod 2012-2014)**



Ganed Charles yn Llanrug ac mae'n dal i fyw yno. Mae wedi gwasanaethu ar Gyngor Cymuned Llanrug, Cyngor Bwrdeistref Arfon ac, ers 1996, Cyngor Gwynedd, lle bu'n Gadeirydd y Cyngor yn 2004/5. Mae ar Gyrff Llywodraethol Ysgol Gynradd Llanrug ac Ysgol Brynrefail. Gweithiodd i British Telecom am 30 mlynedd, lle bu'n rheolwr cynllunio Gwynedd a phennaeth adran gynllunio BT yng Ngogledd Cymru. Wedi ymddeol astudiodd ddiwinyddiaeth drwy Brifysgol Swydd Gaerloyw ac mae wedi bod yn bregethwr ers sawl blwyddyn. Gwasanaethodd ar Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru rhwng 2003 a 2012, a bu'n aelod o Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

# Y Swyddog Monitro

Mae Swyddog Monitro'r Cyngor, Iwan Evans, ynghyd a swyddogion o'r Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Gwasanaeth Democrataidd yn cefnogi'r Pwyllgor Safonau yn ei waith. Mae gan y Swyddog Monitro rôl statudol i sicrhau bod y Cyngor, ei aelodau a'i swyddogion yn gweithredu yn briodol ac yn gyfreithlon.

**Manylion Cyswllt**

- Iwan Evans, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro. E-bost: **IwanGDEvans@gwynedd.gov.uk** Ffôn 01286 679015

- Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr (Corfforaethol). E-bost: **sionhuws@gwynedd.gov.uk** Ffôn: (01286) 679168

# GWAITH Y PWYLLGOR YN YSTOD 2014 - 2015

Mae gwaith y Pwyllgor wedi cynnwys y canlynol dros y flwyddyn (ceir rhaglen waith lawn y Pwyllgor yn yr **Atodiad 1**):

**Achosion fu gerbron y Pwyllgor**

Cynhaliwyd gwrandawiadau i ystyried tair cwyn o dorri'r Cod Ymddygiad gan aelodau etholedig.

**Cynghorydd Christopher O'Neal, Cyngor Gwynedd**

Cerydd am dorri paragraff 4(b) o'r Cod Ymddygiad (dangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt)

Gwahardd am gyfnod o ddau fis am dorri paragraff 6(1)(a) o'r Cod Ymddygiad (peidio ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar swydd yr aelod neu ar ei awdurdod)

**Cynghorydd Nancy Clarke, Cyngor Tref Tywyn**

Gwahardd am gyfnod o dri mis am dorri paragraffau:

14 - peidio â chymryd rhan neu ddylanwadu ar benderfyniad pan fydd gan yr aelod fuddiant sy'n rhagfarnu)

7 (a) - peidio defnyddio safle yn amhriodol i roi neu sicrhau mantais neu anfantais i'r aelod neu i eraill
8(a) - rhoi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion yr awdurdod;

6(1)(a) - peidio ymddwyn mewn ffordd sy'n dwyn anfri ar swydd yr aelod neu ar ei awdurdod.

## Cwynion eraill

Hysbysir y Pwyllgor hefyd o benderfyniadau'r Ombwdsmon ar y cwynion hynny na chyfeirir at y Pwyllgor am benderfyniad, a cheir crynodebau ohonynt yn **Atodiad 2**.

## Goddefebau

Mae'r Cod Ymddygiad i Aelodau yn darparu na all cynghorydd gymryd rhan mewn trafodaeth os oes ganddo/i 'fuddiant sy'n rhagfarnu'. Serch hynny mae gan aelod yr hawl i wneud cais i'r Pwyllgor am ganiatâd i gymryd rhan er bod ganddo/i'r buddiant yma, h.y. goddefiad.

Ystyriodd y Pwyllgor dri chais am oddefiad yn ystod y cyfnod yma. Caniatawyd dau yn rhannol (caniatâd i siarad ond nid pleidleisio). Daethpwyd i'r farn nad oedd buddiant sy'n rhagfarnu yn bodoli yn y trydydd achos ac nad oedd felly angen goddefeb.

## Hyfforddiant ar y Cod ymddygiad

Penderfynodd y Pwyllgor y dylid trefnu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad i aelodau a chlercod cynghorau cymuned a thref y sir. Fe gynhelir y sesiynau yma yn ystod 2015- 2016.

Mynychodd aelodau'r Pwyllgor hyfforddiant ar drefn gwe-ddarlledu cyfarfodydd pwyllgorau'r Cyngor.

## Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

Mae Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru yn rhoi'r cyfle i gynrychiolwyr o holl bwyllgorau safonau awdurdodau'r gogledd gyfarfod. Pwrpas y fforwm yw galluogi pwyllgorau safonau'r ardal i drafod a rhannu syniadau, arferion da ac adnoddau, a hefyd gyflwyno barn ar y cyd ar y lefel genedlaethol. Mynychir cyfarfodydd y Fforwm gan Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor.

**Atodiad 1**

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SAFONAU 2014-15

**7 Gorffennaf 2014**

- Cyfarfod gyda Chadeirydd Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Cyngor Gwynedd
- Adolygu'r drefn goddefebau
- Hunan Asesiad
- Llunio Rhaglen Waith ar gyfer 2014-15

**12 Mehefin 2014**

- Gwrandawiad – penderfynu ar ddwy gŵyn yn erbyn aelod etholedig

**30 Mehefin 2014**

- Adolygu'r drefn ar gyfer cynnal gwrandawiadau
- Ystyried Cofrestr Achosion yr Ombwdsmon
- Derbyn cofnodion Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru

**29 Gorffennaf 2014**

- Gwrandawiad – penderfynu ar gŵyn yn erbyn aelod etholedig

**29 Medi 2014**

- Penderfynu ar gais am oddefeb
- Ystyried Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Derbyn adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd y drefn gwe-ddarlledu

**26 Ionawr 2015**

- Penderfynu ar geisiadau am oddefeb
- Trafod hyfforddiant i gynghorau cymuned

## Atodiad 2

**Hysbyswyd y Pwyllgor o'r penderfyniadau canlynol gan yr Ombwdsmon ar honiadau o dorri'r cod ymddygiad yn erbyn cynghorywr sirol a chynghorwyr cymuned a thref Gwynedd:**

| Honiad o dorri'r Cod Ymddygiad | Penderfyniad yr Ombwdsmon |
|---|---|
| Cwyn, gan gyd-gynghorydd, bod cynghorydd tref wedi bod yn gwneud sylwadau negatif yn barhaus am berfformiad clerc y cyngor. | Dim ymchwiliad. Fel aelod roedd ganddo'r hawl i gwyno os oedd o'r farn fod perfformiad cyflogai yn is drwy na'r lefel ddisgwyliedig. |
| Dwyn anfri ar ei swydd fel cynghorydd neu ar yr awdurdod<br><br>Gwrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd a cham ddefnydd o'i rôl fel cynghorydd<br><br>Mynychu cyfarfod yn groes i gyngor y Swyddog Monitro lle gallai bod sefyllfa o wrthdaro rhwng buddiannau busnes yr aelod a'i rôl fel cynghorydd<br><br>Ymddygiad tuag at aelod o'r cyhoedd yn groes i'r Cod Ymddygiad<br><br>Methiant i ddiweddaru ffurflen cofrestru buddiannau | Dirwyn yr ymchwiliad i ben. Nid oedd y dystiolaeth yn ddigon cadarn i fod yn bendant os y bu achosion o dorri'r cod ymddygiad. |
| Cwyn, gan aelod o'r cyhoedd, bod cynghorydd sir yn gwadu ei bod wedi defnyddio geiriau penodol mewn sgwrs. | Dim ymchwiliad – yr aelod ddim yn gweithredu fel aelod ar y pryd. |
| Cwyn, gan aelod o'r cyhoedd, bod cynghorydd tref wedi ymddwyn mewn ffordd anghwrtais. | Dim ymchwiliad - nid oedd y sylw honedig yn un sarhaus ym marn yr Ombwdsmon. Ni fyddai'n torri cod hyd yn oed pe profir ei fod wedi gwneud y sylwadau. |
| Cwyn yn erbyn ymddygiad cynghorydd tref | Dim ymchwiliad – achwynydd heb gyflwyno digon o wybodaeth am y gŵyn. |

| | |
|---|---|
| Wedi torri nifer o egwyddorion y cod wrth ymwneud â mater lleol. | Peidio ymchwilio. Er y dylai aelod ymateb yn brydlon ac yn llawn i ohebiaeth, nid yw methiant i wneud hynny yn ddigon difrifol i dorri'r cod. Nid oedd tystiolaeth fod yr aelod wedi gwrthod trafod y materion perthnasol gyda'r achwynydd na'i bod yn bwriadu achosi anfantais iddo. |
| Wedi methu datgan buddiant. | Dim tystiolaeth o fethiant i gydymffurfio gyda'r cod – gallai fod gan yr aelod fuddiant ac roedd wedi datgan hynny yn y cyfarfod. Serch hynny nid oedd o'r farn fod y buddiant yn un oedd yn rhagfarnu. |
| Cwyn, gan aelod o gyngor tref bod cyd-aelod wedi ymddwyn yn amhriodol. | Peidio ymchwilio. Dim tystiolaeth i gefnogi'r honiad. Ddim yn amlwg y byddai'n torri'r cod hyd yn oed pe profir yr achos. |
| Cwyn gan aelod cyngor tref fod aelod arall, fel y Cadeirydd, wedi ymddwyn yn anheg tuag ato. | Peidio ymchwilio. Dim tystiolaeth fod ymddygiad yr aelod yn anghwrtais neu ei fod gyfystyr ag aflonyddu o dan y cod. |

# GWYNEDD COUNCIL STANDARDS COMMITTEE
# ANNUAL REPORT 2014 / 2015

CYNGOR
GWYNEDD
COUNCIL

www.gwynedd.gov.uk

# FOREWORD BY THE CHAIRMAN

It is my pleasure to submit this Annual report as Chair of Gwynedd Council's Standards Committee. My time as Chairman and a member came to an end this year, and over the past ten years it has been an honour to serve on the committee.

The main purpose of the Committee is to promote and maintain standards of conduct and I believe that the Committee has succeeded in achieving this, and will continue to do so in the future. You will see from the report that the committee heard an decided on complaints against individual members during the year. Despite this, it must be emphasised, that generally speaking, only a small number of complaints reach the committee, and I wish to thank those members across the county who work conscientiously in the interests of the people of Gwynedd.

Local government across every level will be facing several challenges over the next few years and the committee's strong guidance will be crucial in ensuring that a high standard of conduct is maintained during this difficult period.

I wish to thank my fellow members on the committee for their commitment, their professionalism and their friendship over the years. I wish them, and the new members, well. Finally, I would like to thank the officers for their support and their advice throughout my period on the Committee.

Gwilym Ellis Evans
Chairman of Gwynedd Council's Standards Committee

# FOREWORD BY THE MONITORING OFFICER

The essence of gaining and maintaining the public's trust in the activities of public life is to ensure a high standard of conduct amongst those who hold public office. In this respect, a strong and active Standards Committee plays a key part and fundamental contribution to good governance.

This annual report presents the valuable work that the Gwynedd Standards Committee has achieved in supporting the ethical framework and in promoting high standards of conduct by county councillors and members of the county's town and community councils. Again, this year a work programme was established which encompassed a range of activities. The Committee also dealt with allegations of breaches of the Code of Conduct by members of the Council and community councils, and also decided on requests for dispensations by members.

This year, saw changes in membership as some members' terms of service came to an end. I would like to take this opportunity to acknowledge the commendable contribution of Mr Gwilym Evans and Mr Sam Soysa and to thank them for their long service on the Committee. This year has also seen a change in the Council's Monitoring Officer. I am fortunate in being able to build on a strong foundation that was established by my predecessor, Mrs Dilys Phillips.

The core function of the Standards Committee is to promote a high standard of conduct amongst this Council's members and members of town and community councils and the challenge for the future will be continuing to achieve and communicate this in a positive and effective manner.

Iwan Evans
Monitoring Officer
Gwynedd Council

# INTRODUCTION

The Committee was established in 2001 under the Local Government Act 2000. The main role of the Committee is to promote and maintain high standards of conduct by the councillors and co-opted members of Gwynedd Council, and community and town councils in Gwynedd. It does so in many ways:


- Assisting the councillors and co-opted members to follow the Members' Code of Conduct
- Advising the authority regarding adopting or amending the Members' Code of Conduct
- Monitoring the implementation of the Members' Code of Conduct
- Advising, training or arranging training for councillors and co-opted members on matters relating to the Code of Conduct
- Determining complaints referred to it by the Public Services Ombudsman for Wales that members have breached the Code of Conduct
- Considering applications made by members for dispensations to allow them to participate in discussions despite them having a prejudicial interest under the Code
- Considering complaints referred to it under Gwynedd Council's local resolution procedure.
- Overseeing the Gwynedd Council Members Gifts and Hospitality Policy

# MEMBERS OF THE COMMITTEE

Though the Standards Committee is one of the committees of Gwynedd Council, the majority of its membership does not have any connection with the Council or local government ('Independent Members'). It also has a member who represents the interests of the community councils (‘Community Committee Member'), as well as three elected members from Gwynedd Council. The Chair and Vice-chair of the Committee must be Independent Members.

## Independent Members

**Gwilym Ellis Evans (member 2005 - 2015)**



Gwilym lives in Dolgellau prior to his retirement he was a garage proprietor for almost 40 years. He has served on several appeal tribunals including Employment Tribunals, Child Support and DHS Tribunals and is currently a member of the All Wales Valuation Appeals Tribunal. He is the immediate Past Chairman of the Gwynedd & De Ynys Mon Citizens Advice Bureau. Chairman of the Board of Trustees of Age Cymru Gwynedd a Mon. Vice Chairman of the North Wales Standards Committees Forum and a member of the Gwynedd Economic Partnership Steering Group.

**Samindre (Sam) W. Soysa (member 2005 – 2015)**




Sam lives in Harlech and has worked as a Risk Consultant (Health & Safety) in North Wales for over 10 years. In the past 40 years, he has worked in various senior management and business roles, including with the Ministry of Energy & Power, in New Zealand. He is Vice-Chair of the Standards Committee of the Snowdonia National Park Authority and Vice-Chair of the Gwynedd Council Standards Committee. Previously, he has been a Trustee / Director of Gwynedd & De Ynys Mon Citizens Advice Bureau, having served on the Consultative Committee of the Meirionnydd CAB, and been an Independent Member/Vice Chair of the Standards Committee of the North Wales Fire & Rescue Authority, and has served on the Meirionnydd Community Health Council.

**Linda Byrne (member since 2012)**




Linda has lived in north Wales for ten years and now works at the Citizens Advice Bureau in Caernarfon as a volunteer. Her husband is Welsh and 3 of her grandchildren are Welsh speaking. She has lectured in colleges of further education in the north east of England and in Wales, before becoming a Student Disability Adviser at Durham University and subsequently Bangor University. She served as a Town Councillor for six years and a Borough Councillor for eight years in Sedgefield, Co. Durham.

**Margaret E Jones (member since 2012)**



Originally from Llandrillo yn Rhos, Margaret has spent most of her life in Chwilog. She taught at Ysgol Abersoch for 32 years, including 14 as headmistress. She is a deacon in Eglwys yr Annibynwyr Siloh, Chwilog, was Chairman of the Council of the Union of Welsh Independents for 3 years and is also a former President of the Union. She was a member of Gwynedd Community Health Council and Vice Chairman until the reorganisation in 2010. She is also Chairman of the Chwilog Eisteddfod.

**Dr Einir Young (member since 2012)**



Einir is Director of Sustainability at Bangor University and her Department is in the process of being restructured to take a lead as the corporate focal point for sustainable development at the University. One of Einir's main interests is to facilitate discussion around the conflictsthat can arise from trying to strike the balance between economic, social and environmental considerations in every decision we make as businesses, organisations and individuals. This is becoming an increasingly important consideration in Wales in the wake of the Well-being of Future Generations (Wales) Act 2015. Many bodies now have a statutory duty to adopt the principle of sustainable development in all their decisions. Maintaining standards is as important to sustainability as recycling and saving energy and she welcomes the opportunity to contribute to and chair Gwynedd's Standards Committee.

**Jacqueline Hughes (member since 2015)**



Jackie lives in Nantlle with her husband Ian, 3 daughters, grand daughter and a very lively dog. Originally from the Wirral, she qualified as a diagnostic radiographer in 1987 after studying at Guys Hospital School of Radiography. After settling in North Wales with her young family, she joined the staff at Ysbyty Gwynedd. Jackie's career in Bangor has advanced both as a radiographer and as an industrial relations representative. She is currently the Staff Side Chair for the Betsi Cadwaladr Health Board as well as being the local society representative for most of the radiographers in North Wales. She has been President of the Society and College of Radiographers and was instrumental in developing the response to the Francis Report, and subsequently a new code of conduct for radiographers. She believes that any one working in public life must maintain a high level of personal standards in order to be credible to the public.

**David Wareing (member since 2015)**



In 2014 David relocated from Lancashire to Groeslon following his retirement from Merseyside Police. He served for 26 years in a variety of roles with his last posting being to the Force Operations Department at HQ. This position involed the planning and delivery of large-scale public events, public safety during major Police operations and the reduction of police support to outside agencies through greater partnership working. David specialised in risk assessment and ensuring compliance of relevant Health and Safety legislation working within the legal framework. David represented Merseyside Police on all five Safety Advisory Groups that covered the Force Area. He firmly believes that the actions of those in public office must be both transparent and accountable.

# Councillor David Clay (member since 2008)

**Councillor David Clay (member since 2008)**



David has been an elected member of Barmouth Town Council for 29 years and has held the position of Chair on 4 separate occasions. He is past Chair of the Meirionnnydd Area Committee of One Voice Wales. Now retired, he was an hotelier in Barmouth for 30 years and was an active member of Mid Wales Tourism Council and in later years a Director of Mid Wales Tourism Partnership.

# Gwynedd Council Members

**Councillor Eryl Jones-Williams (member since 2011)**



Eryl is a semi-retired freelance journalist who has represented Dyffryn Ardudwy and Talybont on Gwynedd Council since 2008. He is also a long-standing town and community councillor and has served as both Mayor and Chairman. He takes an active part in disability rights and is vice-chairman of the Meirionnydd Access Group as well as a member of the South Snowdonia Access Forum and the Betsi Cadwalader University NHS Community Health Council. He is currently chairman of the Gwynedd Licensing Committee, where is able to draw on his experience as a former licensee. He is alos the Carers' Champion for Gwynedd. A former Welsh Football referee his hobbies includes golf at Royal St David's Harlech and Dolgellau.

**Councillor Michael Sol Owen (member since 2012)**



Michael lives in Pwllheli and has represented North Pwllheli on Gwynedd Council since May 2012. He holds a degree in Physics and Material Science and was managing director of a company in Pwllheli and also worked as a business consultant for the Assembly. He has been a member of Pwllheli Town Council for over 30 years and is chairman of the Pwllheli Youth Project charity. Currently he is Chair of Gwynedd Council's Planning Committee and also serves on the Management Board of Cartrefi Cymunedol Gwynedd.

**Councillor Lesley Day (member since 2014)**



Les has been a Gwynedd Councillor since May 2012 and is the current Chair of the Democratic Services Committee. She has been a Bangor City Councillor since 1991 and is a past mayor, representing the Garth Ward in Bangor. She is a former member of Arfon Borough Council. Les' qualifications, career and hobby are all local government. She gained her local government public admin qualifications whilst working for Surrey County Council. Upon returning to her home town of Bangor she gained her local government financial qualifications whilst working for Gwynedd County Council. Les transferred to Conwy County Borough Council on reorganisation in 1996. Les is the Chairman of Garth Community Centre and a governor of Ysgol Hirael.

**Councillor Charles Wyn Jones (member 2012-2014)**



Charles was born in Llanrug, where he still lives. He has served on Llanrug Community Council, Arfon Borough Council and, since 1996, Gwynedd Council, where he was Chairman of the Council in 2004/5. He is a member of the governing bodies of Llanrug Primary School and Ysgol Brynrefail. He worked for British Telecom for 30 years, where he was planning manager for Gwynedd and head of the BT planning department in north Wales. After retiring he studied divinity through the University of Gloucestershire and has been a preacher for many years. He served on the North Wales Police Authority between 2003 and 2012, and was a member of the Authority's Standards Committee.

# The Monitoring Officer

The Council's Monitoring Officer, Iwan Evans, along with officers from the Legal Service and the Democratic Service support the Standards Committee in its work. The Monitoring Officer has a statutory role to ensure that the Council, its members and its officers act appropriately and lawfully.

**Contact Details**

- Iwan Evans, Head of Legal Services and Monitoring Officer.
  E-mail: **IwanGDEvans@gwynedd.gov.uk** Tel: 01286 679015

- Sion Huws, Senior Solicitor (Corporate).
  E-mail: **sionhuws@gwynedd.gov.uk** Tel: (01286) 679168

# THE COMMITTEE'S WORK DURING 2014-2015

The Committee's work over the year has included the following (the Committee's full work programme can be seen in **Appendix 1**):

**Cases heard by the Standards Committee**

Hearings were held to consider three complaints that elected members had breached the Code of Conduct.

**Councillor Christopher O'Neal, Gwynedd Council**

Censure for breaching paragraph 4(b) of the Code of Conduct (showing respect to others and consideration of others)

Suspension for a period of two months for breaching paragraph 6(1)(a) of the Code of Conduct (not to behave in a way which brings a member's office or the authority into disrepute)

**Councillor Nancy Clarke, Tywyn Town Council**

Suspension for three months for breaching paragraphs:

14 – not to participate or influence a decision when the member has a prejudicial interest

7 (a) – not to use a position inappropriately to give or secure advantage or disadvantage to the member or to others

8(a0 – address any relevant advice provided by authority officers

6(1)(a) **-** not to behave in a manner which would bring the member's office or the Council into disrepute.

## Other Complaints

The Committee is also informed of those complaints not referred to it for decision. Summaries can be found in **Appendix 2.**

## Dispensations

The Code of Conduct for Members provides that a councillor cannot participate in a discussion if he/she has a 'prejudicial interest'. However, a member has a right to apply to the Committee for permission to participate despite having this interest, i.e. dispensation.

The Committee considered three applications for dispensation during this period. Two were allowed in part (permission to speak but not to vote). It was determined that a prejudicial interest did not exist in the third case and, therefore, a dispensation was not required.

## Training on the Code of Conduct

The Committee decided that training should be arranged on the Code of Conduct for members and clerks of the county's community and town councils. These sessions will be held during 2015-2016.

Members of the Committee attended training on the procedure of webcasting the meetings of the Council's committees.

## North Wales Standards Committee Forum

The North Wales Standards Committee Forum gives representatives of all north Wales authorities' standards committees the opportunity to meet. The purpose of the forum is to enable the area's standards committees to discuss and share ideas, good practices and resources and also provide a joint opinion on a national level. The Chair and Vic-chair of the Committee attend the meetings.

# THE STANDARDS COMMITTEE'S WORK PROGRAMME 2014-15

**7 July 2014**

- Meeting with the Chair of Gwynedd Council's Democratic Services Committee
- Reviewing the dispensations procedure
- Self-Assessment
- Creating a Work Programme for 2014-15

**12 June 2014**

- Hearing – determining two complaints against an elected member

**30 June 2014**

- Reviewing the procedure for holding hearings
- Consider the Ombudsman's Case Register
- Accept the minutes of the North Wales Standards Committee Forum

**29 July 2014**

- Hearing – determining a complaint against an elected member

**29 September 2014**

- Determining an application for dispensation
- Consider the Annual Report of the Public Services Ombudsman for Wales
- Accept the report of the Head of Democratic Services on the webcasting procedure

**26 January 2015**

- Determining applications for dispensation
- Discussing training for community councils

## Appendix 2

**The Committee was informed of the following decisions by the Ombudsman in relation to allegations that county and community and town councillors had breached the Code of Conduct:**

| Allegation | Decision |
|---|---|
| Complaint by a fellow- member that a town councillor had been persistently negatively critical of the clerk's performance. | No investigation. The member was entitled to complain if he believed that the performance of an employee fell below the required standard. |
| Bringing his office as councillor or the authority into disrepute<br><br>Conflict between the councillor's business interests and his role as councillor and misuse of his position as councillor<br><br>Attending a meeting where a conflict of interests could arise ,contrary to the Monitoring Officer's advice<br><br>Behaviour towards member of the public contrary to Code of Conduct<br><br>Failure to update registration of personal interests | Investigation discontinued as the evidence was not sufficiently conclusive to enable the Ombudsman to reach a firm view on the breaches of the code. |
| Complaint by member of the public that a county councillor had denied using certain words in a conversation. | No investigation - member not acting as a councillor at the time. |
| Complaint by member of the public that a town councillor had behaved in an offensive manner. | No investigation. The alleged comments were not offensive in the Ombudsman's view and would not, if proven, be serious enough to constitute a breach of the code. |
| Complaint regarding a town councillor's conduct. | No investigation – insufficient information submitted. |

| | |
|---|---|
| Complaint by member of the public that a councillor had breached a number of the code's principles in dealing with a local matter. | No investigation. Although a member should respond fully and promptly to correspondence, failure to do so was not serious enough to be a breach of the code. No evidence that the member had refused to discuss the matter with the complainant or that she had tried to cause him a disadvantage. |
| Failure to declare an interest. | No evidence of failure to comply with the code – the members may have had a personal interest and they had declared that interest in the meeting. However the interest was not a prejudicial one. |
| Complaint by a town councillor that a fellow member had behaved in an inappropriate manner. | No investigation. No evidence to support the allegation. Did not appear that behaviour would have been a breach even if proved. |
| Complaint by a fellow member that town council member, in his role as Chair, had behaved unfairly towards him. | No investigation. No evidence that the behaviour was rude or offensive or that it constituted harassment under the code. |